Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

Cytundebau a drafodwyd ar 8 Ionawr 2024

Ionawr 2024

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Mae'r Pwyllgor yn trafod yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Wrth drafod cytundeb rhyngwladol rydym yn ystyried y canlynol:

- a yw o fewn cymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 8 Ionawr 2024[1], gwnaethom ystyried y cytundeb rhyngwladol a ganlyn a oedd wedi'i osod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer darparu partneriaeth lloches i gryfhau ymrwymiadau rhyngwladol a rennir ar amddiffyn ffoaduriaid a mudwyr

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd camau ychwanegol mewn perthynas â'r cytundeb hwn. Mae manylion y cytundeb, a'n camau gweithredu priodol, wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Ionawr 2024

# 2. Cytundebau y mae angen gweithredu pellach yn eu cylch

**Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer darparu partneriaeth lloches i gryfhau ymrwymiadau rhyngwladol a rennir ar amddiffyn ffoaduriaid a mudwyr**

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 6 Rhagfyr 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 31 Ionawr 2024.

**8.** Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer creu, cynnal a gorfodi partneriaeth rhwng y DU a Rwanda ar gyfer ymdrin ag unigolion a adleolir o'r Deyrnas Unedig i Rwanda, gan gynnwys ystyried a phenderfynu ar geisiadau am statws ffoadur.

**9.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai amcan cyffredinol y cytundeb yw'r canlynol:

> *"…to deter dangerous and illegal journeys to the United Kingdom which are putting people's lives at risk and to disrupt the business model of people smugglers who are exploiting vulnerable people."*[2]

**10.** Mae hefyd yn amlinellu tri math o fecanweithiau a sefydlwyd gan y cytundeb:

- Mecanweithiau ar gyfer ceisiadau am loches: Yn gyntaf, ar gyfer adleoli i Rwanda geiswyr lloches nad yw'r DU yn ystyried eu ceisiadau. Yn ail, ar gyfer penderfynu ar geisiadau am amddiffyniad yn Rwanda yn unol â chyfraith a safonau rhyngwladol;
- Mecanweithiau ar gyfer adleoli i Rwanda unigolion eraill sy'n cyrraedd y DU yn anghyfreithlon, ac ar gyfer rhoi'r cyfle i'r unigolion hynny i wneud cais am loches yn Rwanda, neu ar gyfer setliad amgen yn Rwanda os gwrthodir eu cais;

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Rwanda: Cytundeb ar gyfer darparu partneriaeth lloches i gryfhau ymrwymiadau rhyngwladol a rennir ar amddiffyn ffoaduriaid a mudwyr, Rhagfyr 2023, paragraff 2.1

- Mecanwaith ar gyfer setlo unigolion a adleolir o'r Deyrnas Unedig i Rwanda a rhoi digon o gyfleoedd iddynt i integreiddio'n llwyddiannus i gymdeithas Rwanda.[3]

**11.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y cytundeb yn ymwneud â mewnfudo a lloches, sy'n faterion a gedwir yn ôl, ac yn nodi'r canlynol:

> *"no implications for the Devolved Administrations, and the UK Government has not consulted the Devolved Administrations on the drafting of this Treaty."*[4]

**12.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar y ddeddfwriaeth ddomestig a fydd yn cael ei defnyddio i roi effaith gyfreithiol i'r cytundeb yn y DU. Mae'n rhestru deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023, y gwnaeth y Senedd atal cydsyniad ar ei chyfer ym mis Mehefin 2023[5], ac mae'n egluro bwriad y Prif Weinidog i gyflwyno deddfwriaeth newydd i gadarnhau, gyda'r Cytuniad hwn, fod Rwanda yn drydedd wlad ddiogel.[6]

**13.** Cyflwynwyd Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) wedyn yn Senedd y DU ar 7 Rhagfyr 2023[7]. Lansiodd Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi ymchwiliad byr hefyd i gytundeb Llywodraeth y DU â Rwanda, a gafodd dystiolaeth hyd at 29 Rhagfyr 2023.[8]

**14.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn esbonio mai dyma ddiben y Bil:

- atal a rhwystro mudo anghyfreithlon, ac yn benodol, mudo drwy lwybrau anniogel ac anghyfreithlon, drwy alluogi symud pobl i Rwanda o dan ddarpariaeth a wneir gan, neu o dan, y Deddfau Mewnfudo;[9]
- cadarnhau bod Rwanda yn drydedd wlad ddiogel, a thrwy hynny alluogi symud pobl sy'n cyrraedd y DU o dan y Deddfau Mewnfudo;
- adeiladu ar yr amcanion a nodir yn *Neddf Mudo Anghyfreithlon 2023*, *Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022*, a'r mesurau a nodir yn y Cynllun

[3] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.3
[4] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10
[5] Y Cyfarfod Llawn, 20 Mehefin 2023
[6] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 5
[7] Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo), fel y'i cyflwynwyd (Bil 38)
[8] Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi: Ymchwiliad i Gytundeb Lloches Llywodraeth y DU â Rwanda
[9] Mae'r Deddfau Mewnfudo, fel y'u diffinnir gan adran 61(2) o *Ddeddf Ffiniau'r DU 2007*, yn cynnwys *Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022* a *Bil Mudo Anghyfreithlon 2023*.

Newydd ar gyfer Mewnfudo, fel rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â mudo anghyfreithlon.[10]

**15.** Gwnaeth James Cleverly AS, yr Ysgrifennydd Cartref, y datganiad a ganlyn o dan adran 19(1)(b) o *Ddeddf Hawliau Dynol 1998* mewn perthynas â'r Bil:

> *"I am unable to make a statement that, in my view, the provisions of the Safety of Rwanda (Asylum and Immigration) Bill are compatible with the Convention rights, but the Government nevertheless wishes the House to proceed with the Bill."*[11]

**16.** Ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd y Goruchaf Lys ddyfarniad blaenorol y Llys Apêl yn unfrydol fod cynlluniau lloches Rwanda Llywodraeth y DU yn anghyfreithlon[12] ar y sail a ganlyn:

> *"there are substantial grounds for believing that asylum seekers would face a real risk of ill-treatment by reason of refoulement to their country of origin if they were removed to Rwanda."*[13]

**17.** Mae'r dyfarniad yn cadarnhau bod ceiswyr lloches yn cael eu hamddiffyn rhag *refoulement* gan gyfraith ryngwladol a domestig, gan gynnwys *Deddf Hawliau Dynol 1998* a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**18.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi nad yw darpariaethau'r Bil yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig ond y ceisir cydsyniad deddfwriaethol gan y llywodraethau datganoledig os bydd unrhyw welliannau dilynol yn gwneud hynny.[14]

**19.** Er bod y cytundeb hwn yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, cytunwyd i dynnu'r cytundeb at sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac i hysbysu'r Pwyllgor hwnnw am y goblygiadau posibl y gall y cytundeb a Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo) eu cael ar unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n cael eu hadleoli i Rwanda.

**20.** Gwnaethom gytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y canlynol:

---

[10] Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo), Nodiadau Esboniadol, Rhagfyr 2023, paragraff 1
[11] Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo)
[12] Dyfarniad y Goruchaf Lys: [2023] UKSC 42, 15 Tachwedd 2023
[13] Crynodeb y wasg o ddyfarniad y Goruchaf Lys: [2023] UKSC 42, 15 Tachwedd 2023
[14] Y Nodiadau Esboniadol, paragraff 24

- mwy o wybodaeth am ei safbwynt ar y cytundeb a'r Bil;
- ei barn mewn perthynas â meysydd penodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn. Er enghraifft, am rwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE.
- ei barn am rwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel mewn perthynas â'r cytundeb hwn, Bil Diogelwch Rwanda (Lloches a Mewnfudo), a *Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023*, y gwnaeth y Senedd atal cydsyniad ar eu cyfer ym mis Mehefin 2023.

**21.** Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi i dynnu ei sylw at y camau gweithredu a restrir uchod, ac i rannu canfyddiadau dilynol y Pwyllgor, i lywio ymchwiliad byr y Pwyllgor ar y cytundeb.